

Cydweithio er mwyn Cefnogi Gwelliannau

Cytundeb Strategol rhwng

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)

Estyn

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)

Swyddfa Archwilio Cymru

Mawrth 2011

Cynnwys

Rhagair	3
Gweledigaeth ac egwyddorion sylfaenol	4
Adeiladu ar sylfeini cadarn	5
Ein prif amcanion ar gyfer gwell gydweithio	6
Gwneud i hyn ddigwydd	7

Rhagair

Ein bwriad ni oll yw cefnogi gwell ganlyniadau ar gyfer dinasyddion, wrth geisio amddiffyn eu buddion pob amser drwy adrodd ar y gwasanaethau cyhoeddus sydd o dan ein gofal, â hynny heb ofn na thuedd.

Drwy weithio ar y cyd yn effeithiol, gallwn gynyddu'r effaith allwn ei gael. Er ein bod eisoes yn gweithio ar y cyd, gwyddom yn gallwn wneud mwy i gydlynu cynllunio a darparu ein rhaglenni gwaith unigol, ac i rannu gwybodaeth rhwng ein sefydliadau. Dylai ein cydweithio fod yn amlwg, gan gael ei lywodraethu gan egwyddorion clir ac amcanion tebyg, er mwyn dangos y gwerth mae'n ei ychwanegu i'n gweithgareddau.


Rydym felly yn falch o gael cyflwyno'r cytundeb strategol hwn ar y cyd rhwng ein pedwar sefydliad sydd yn gosod yn glir sut y byddem yn datblygu ein trefniadau gwaith ar y cyd, hyd yn oed yn fwy.



Imelda Richardson, Prif Arolygydd CSSIW



Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru



Peter Higson, Prif Weithredwr AGIC



Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru

Gweledigaeth ac egwyddorion sylfaenol

Ein gweledigaeth gyffredin yw bod ein gwaith arolygu, archwilio a rheoleiddio yn hwb pwerus i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, wedi ei gefnogi gan fframwaith clir ac effeithiol ar gyfer cydweithio yn ein mysg ni ac ymysg eraill.

Mae nifer o egwyddorion allweddol a fydd yn ategu'r gwaith sydd yn cael ei wneud gennym ar y cyd, sef:

- byddwn yn ystyrlon o swyddogaethau statudol ein gilydd a'r gwaith mae'n rhaid i ni oll, fel sefydliadau unigol, ei wneud er mwyn cyrraedd yr anghenion hyn;
- byddwn yn parchu a gweld gwerth yn y dulliau unigol mae pob sefydliad yn eu defnyddio wrth weithio, a cheisio dysgu oddi wrth ein gilydd ble bynnag fo'n bosib;
- byddwn yn ceisio dibynnu ar ddarganfyddiadau ein gilydd er mwyn osgoi ail-wneud gwaith;
- ni fyddwn yn gweithio ar y cyd dim ond er gwneud hynny, ond oherwydd ei fod yn ychwanegu gwerth ac y bydd yn creu gwasanaethau a chanlyniadau gwell i ddinasyddion Cymru;
- byddwn yn defnyddio model gweithio ar y cyd, pan fo'n briodol, ble fo un ohonom yn cymryd rôl 'arweiniol' ar ddarn o waith, tra bod y lleill yn darparu deallusrwydd ac arbenigedd lle fo'n briodol;
- byddwn yn ymrwymo'r adnoddau hanfodol a'n hamser i'r agenda cydweithio;
- byddwn yn parhau i graffu ar y trefniadau cydweithio er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i wella ac yn cynyddu mewn gwerth.

Adeiladu ar sylfeini cadarn

Mae fframweithiau a mentrau megis Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella a'r Concordat ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi creu sylfaen gadarn ar gyfer darpariaeth ar y cyd o waith arolygu allanol.

Mae hyn wedi arwain at greu offer a phrosesau i gefnogi gweithio ar y cyd ac mae wedi helpu i feithrin perthnasau gwaith positif ymysg ein staff, sydd mor hanfodol ar gyfer cydweithio llwyddiannus.

Rydym yn awyddus i wella ar y sylfeini cadarn hyn a mynd â'n trefniadau cydweithio ni i'r lefel nesaf. Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn golygu mynd i'r afael â rhai materion sydd, yn y gorffennol, wedi bod yn drafferthus. Mae'r rhain yn cynnwys trefnu ein cynlluniau busnes er mwyn hwyluso rhaglennu ar y cyd a gweld gwerth mewn agweddau gwahanol yr ydym oll, yn unigol yn dod â hwy i'r gwaith o fewn ac ar draws sectorau gwahanol.

Mae'r trefniadau sydd wedi eu nodi yn y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) newydd yn darparu cyfle arbennig i gryfhau trefniadau ar y cyd ac mae cynnydd da eisoes wedi cael ei wneud. Bydd strwythurau symlach o fewn y GIG hefyd yn helpu hyn drwy ein gwneud hi'n haws i gynllunio ein cydweithio a rhannu gwybodaeth.

Ein prif amcanion ar gyfer gwell gydweithio

Wrth adeiladu ar y sylfeini cadarn a drafodwyd yn yr adran ddiwethaf, rydym wedi adnabod nifer o brif amcanion a fydd yn fframio'r ffordd yr awn ati i gydweithio. Mae'r rhain wedi eu nodi isod:

Prif Amcan 1

Mae'n cydweithio yn cael ei lywio gan weledigaeth a phwrrpas cyffredin, ac yn cael ei gefnogi, lle bo'r angen gan gytundebau strategol a phrotocol gweithredu.

Prif Amcan 2

Bydd ein gweithgareddau cynllunio a rhaglennu yn cael eu cydlynu fel bod rhaglenni gwaith cymesur yn cael eu creu a fydd yn osgoi dyblygiad a sicrhau fod y prif beryglon a phryderon yn cael eu harchwilio.

Prif Amcan 3

Byddwn yn datblygu dulliau er mwyn i'n sefydliadau allu rhannu gwybodaeth er mwyn llywio ein rhaglenni gwaith ac er mwyn helpu i sicrhau fod deallusrwydd yn cael ei rannu yn ymarferol ac yn brydlon.

Prif Amcan 4

Byddwn yn adnabod cyfleoedd i ddod ynghyd â'r wybodaeth a'r deallusrwydd am wasanaethau cyhoeddus sydd gennym, ac adrodd ar hyn mewn ffyrdd sydd yn cefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau, hysbysu creu polisïau a chraffu cenedlaethol, a chryfhau atebolrwydd cyhoeddus.

Prif Amcan 5

Byddwn yn monitro'r cynnydd sydd yn cael ei wneud gennym o ran gweithio ar y cyd yn gyson ac adrodd ar hyn yn agored a thryloyw i randdeiliaid allweddol.

Gwneud i hyn ddigwydd

Rydym yn cydnabod nad yw gweithio ar y cyd yn digwydd ar ei ben ei hun. Mae'n rhaid cefnogi ymrwymïadau strategol, fel sydd wedi eu nodi yn y ddogfen hon, drwy adnabod yr adnoddau sydd eu hangen i wneud y gwaith, a thrwy atebolrwydd clir ar gyfer cydweithio o fewn pob sefydliad.

Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd da drwy gytuno i ariannu swydd cyfnod penodol i weithio ledled y pedwar sefydliad. Bydd yr adnodd allweddol hwn yn ein helpu i sefydlu'r fframweithiau a'r prosesau hanfodol er mwyn cefnogi cydweithio. Bydd y gwaith yn cael ei lywio gan grŵp cydweithio strategol o uwch-gydweithwyr o bob sefydliad, â'r penderfyniadau terfynol yn nwylo penaethiaid y sefydliadau.

Bydd grwpiau gweithio penodol a gweithgareddau prosiect yn cael eu sefydlu i gefnogi bob amcan sydd wedi ei nodi yn y ddogfen hon a bydd yr amcanion eu hunain yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol.

Byddwn yn adrodd ar ein cynnydd yn rheolaidd gan adnabod, mewn modd gwrthrychol, y ffactorau a all helpu neu amharu ar y cydweithio ar draws ein sefydliadau.